



Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

DEFNYDDIAU AC



ECOLEG YN Y DOSBARTH



Am fwy o ysbrydoliaeth, taflwch olwg ar becyn gwych [What's that Snake? i ysgolion cynradd](#) (www.arguk.org/info-advice/educational-resources) a grëwyd gan Nigel Hand a Jo Polack mewn partneriaeth â HART (*Herefordshire Amphibian and Reptile Team*) a *Herefordshire Wildlife Trust*.

Dyma ddolenni eraill at wefannau defnyddiol, am wybodaeth y gallwch ei defnyddio mewn sesiynau yn y dosbarth:

- Grwpiau Amffibiaid ac Ymlusgiaid y DU (www.arguk.org)
- Amphibian and Reptile Conservation Trust (www.arc-trust.org)
- Froglife (www.froglife.org)
- The British Herpetological Society (BHS) (www.thebhs.org)
- Reptiles and Amphibians of the UK (www.herpetofauna.co.uk)

Ewch at adran 'Adnoddau' Gwiberod Gwych ar wefan ARG UK hefyd i lawrlwytho templed PowerPoint, y gallwch ei ddefnyddio yn y dosbarth wrth weithio mewn ysgolion

<https://www.arguk.org/get-involved/projects-surveys/adders-are-amazing-gwiberod-gwych-resource-pages>

Os oes arnoch angen delweddau o'n hymylusgiaid brodorol i'w defnyddio mewn sesiynau yn y dosbarth, mae rhai ar gael i'w defnyddio yn: Adran 'Adnoddau' Gwiberod Gwych ar wefan ARG UK. Gallwch lawrlwytho'r rhain yn rhad ac am ddim i'w defnyddio mewn cyflwyniadau, eu hargraffu a'u lamineiddio, ar yr amod eich bod yn eu defnyddio at ddibenion addysgol yn unig. Cofiwch ddweud pwy yw'r ffotograffwyr pan fyddwch yn eu defnyddio.

GWIBEROD CLAI, SWYNOGLAU GWIBEROD A CHLAI AR GYFER CELF NATURIOL


Gallwch brynu clai sy'n sychu yn yr aer mewn siopau bargaen crefft a nwyddau'r cartref yn lleol.

Mae ar gael ar-lein hefyd, gan gwmnïau mwy adnabyddus gan gynnwys Amazon, ac yn siopau'r stryd fawr, e.e. The Works (www.theworks.co.uk) a Hobbycraft (www.hobbycraft.co.uk).

Ar gyfer y gwiberod coed, defnyddiom ni Scolay Clay, sydd hefyd ar gael ar-lein.

Er mwyn marcio'r patrymau ar y gwiberod clai, defnyddiom ni declynnau taenu glud plastig, rhad





HUDLATHAU GWIBEROD, CERRIG GWIBEROD, NADROEDD AR GYFER YR HELFA GWIBEROD, LLUSERNAU PAPUR

Mae pennau ffelt parhaol, tenau (*Sharpies*) yn hanfodol ar gyfer ein gweithgareddau! Mae'r rhain ar gael yn y rhan fwyaf o siopau papurach, ac yn aml mae siopau fel WH Smiths a Tesco yn eu gwerthu am bris gostyngol. Er bod pob lliw yn ddefnyddiol, rydym yn awgrymu prynu mwy o rai du, coch a brown gan mai dyma'r lliwiau mwyaf poblogaidd ar gyfer gwiberod.

Gallwch brynu rhoiau o ruban ar gyfer yr hudlathau gwiberod ar-lein

LLUSERNAU PAPUR, NOS-OLEUADAU GWIBEROD A FFENESTRI 'GWYDR LLIW'

Er mwyn gwneud ein llusernau gwiber anferth a'r llusernau trionglog, archebwyd defnyddiau gan Musgrove Willows: www.musgrovewillows.co.uk. Bydd arnoch angen prynu brwsys paent 2" hefyd er mwyn rhoi'r glud arnynt.

Defnyddiom ni bapur sidan o The Works i greu ein nos-oleuadau gwiberod. Mae'n rhad ac o ansawdd da. Maent hefyd yn gwerthu glud PVA ar gyfer y grefft hon.

Mae'r canhwyllau bach LED (nid fflamiau agored) yn fwy diogel, a hefyd yn gallu cael eu haildefnyddio os ydych yn prynu'r rhai y gellir tynnu eu batris allan. Archebom ni ein rhai ni ar-lein mewn swmp, gan Hobbycraft (www.hobbycraft.co.uk)

Ar gyfer y golygfeydd ffenestri, defnyddiom ni bapur sidan sy'n gryf pan yn wlyb, o Musgrove Willows, a phrynwyd set o bapur sidan sydd ddim yn rhedeg er mwyn ychwanegu lliw.

GWIBEROD GWIB, GACENNAU CAS

Prynwyd dis enfawr ar-lein - mae'n sicrhau bod y chwaraewyr yn cael lot mwy o hwyl!

Mae siopau elusen a mudiadau bywyd gwyllt/natur yn ffynhonnell dda iawn ar gyfer nadroedd tegan. Prynwyd yr hoff neidr O BELL FFORDD yn yr ysgolion, o IKEA:

Gallwch brynu sialc palmant enfawr yn siopau crefft y stryd fawr, er enghraifft The Works.





MONOBRINTIO

Fwy na thebyg mai dyma'r gweithgaredd mwyaf arbenigol o ran offer a defnyddiau. Ar gyfer yr inciau printio, defnyddiwyd inc printio Scola sydd â sylfaen dŵr (e.e. o www.economyofbrighton.co.uk)

Defnyddiom ni declynnau rholio inc 150mm sydd hefyd ar gael yn: www.economyofbrighton.co.uk neu www.homecrafts.co.uk

Ar gyfer y platiau incio, prynom ni haenen fawr o Perspex 3mm clir a'i thorri i'r maint cywir ein hunain, ond mae rhai cyflenwyr ar-lein yn gallu ei thorri i chi. Rydym ni'n awgrymu cael tua 5-10 haenen maint A4, ar gyfer gweithdy mewn ysgol.

Sicrhewch eich bod yn defnyddio papur celf trwchus, o ansawdd da, i gael y canlyniadau gorau (tua 210 gsm)

PAENT AR GYFER CERRIG GWIBEROD, CORONAU GWIBEROD A 'CHACENNAU' CARDFWRDD

Defnyddiom ni baent acrylig i greu'r cerrig gwiberod. Gallwch ei gael o Wilko (www.wilko.com) sy'n gymharol rhad ac o ansawdd da. Mae Wilko hefyd yn gwerthu setiau brwshys paent rhad, o ansawdd da, a phennau marcio er mwyn ysgrifennu o dan gerrig. Defnyddiwyd y peintiau hyn mewn creffttau eraill hefyd. Mae The Range hefyd yn gwerthu brwshys paent o ansawdd da am bris da.

I orffen y cerrig gwiberod, defnyddiom chwistrell farnais clir i roi haenen amddiffynnol drostynt. Nid yw hyn yn hanfodol, ond mae'n eu gwella fel eu bod yn para'n hirach allan yn yr awyr agored. Yn aml, mae gan archfarchnadoedd fel Aldi a Lidl gynigion arbennig gyda chwistrelli rhad, ond gallwch hefyd brynu cynnyrch fel Rust-Oleum Crystal Clear Protective Coat Spray mewn siopau neu ar-lein. Mae un can 400ml yn gorchuddio tua 30 carreg.

LLIFYNNAU NATURIOL

Er mwyn lawrlwytho mwy o wybodaeth ar y llifynnau naturiol yr oeddem wedi eu defnyddio yng ngweithdy defnyddiau naturiol Gwiberod Gwych, cliciwch ar www.arguk.org/get-involved/projects-surveys/adders-are-amazing-gwiberod-gwych-resource-pages

Mae yna adnodd ar-lein rhagorol i unrhyw un sydd am ddarganfod mwy am lifynnau naturiol ac archebu defnyddiau - rhowch glic ar www.wildcolours.co.uk

